Cyngor Celfyddydau Cymru

Datblygu Cynhyrchu Theatr
Crynodeb o'r ymgynghoriad a'n hymateb

Medi 2011

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Datblygu Cynhyrchu Theatr
Crynodeb o'r ymgynghoriad a'n hymateb

Cyflwyniad

Yn sgil ein Hadolygiad Buddsoddi ymroddasom i greu'r canlynol:

Cronfa ddatblygu newydd i annog safon well mewncynhyrchu drama yn y ddwy iaith. Byddai'r pwyslais ar fuddsoddi yn y cam cyn cynhyrchu - datblygu awdur/sgript, darlleniadau wedi'u hymarfer, gwaith sy'n mynd rhagddo ac ati.

Dyma ei amcanion:

Cynorthwyo cynhyrchwyr theatr i ddatblygu gwaith cyffrous, heriol a pherthnasol i gynulleidfaoedd Cymru

Erbyn diwedd yr ymgynghoriad ar 4 Chwefror 2011 roeddem wedi derbyn adborth ysgrifenedig gan 19 o bobl:

Sefydliadau Refeniw (2010/11)	10
Sefydliadau eraill	4
Unigolion	5

Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd.

Yn fras croesawodd yr ymatebion y Gronfa newydd i Ddatblygu Theatr. Mae'r crynodeb hwn yn cynnwys y prif themâu a'r syniadau a ddeilliodd o'r ymatebion ymgynghori a'n hymatebion iddynt.

Crynodeb o Ymatebion

Cwestiwn 1

A gytunwch fod eisiau cronfa o'r fath? A fyddai'n wirioneddol bosibl i hon arwain at ddatblygu cynyrchiadau newydd ac arloesol? Sut gallai hynny fod yn gatalydd i ddatblygu cynulleidfaoedd yn sylweddol?

Cafwyd 12 ateb. Roedd y 12 o blaid y gronfa a'i phosibiliad i ddatblygu cynyrchiadau difyr ac arloesol.

Cyfeiriodd sawl un at y posibiliad y byddai'r cynllun yn gatalydd i ddatblygu cynulleidfa. Gofynnodd sawl un a arweiniai'r cynllun at ddatblygu cynulleidfa ynddi ei hun gan awgrymu mai un elfen y dylai fod mewn strategaeth

ehangach. Ond gwelodd eraill sut y gallai gwaith y cynllun helpu datblygu cynulleidfa.

"Ni chredaf fod y broses ar ei phen ei hun yn gatalydd i ddatblygu cynulleidfa'n sylweddol; mae eisiau iddi fod yn rhan o strategaeth gynhwysfawr (gweler sylwadau uchod)."

"Credaf fod angen y fath gronfa i gefnogi cynhyrchwyr i wneud y gorau o'u partneriaethau creadigol. Ymhen y rhawg bydd yn gwella delwedd theatr Cymru yn fewnol ac allanol gan gynyddu atyniad i yrfaoedd yn y maes. Bydd o fudd i artistiaid, cynulleidfaoedd a datblygiad y celfyddydau.
Ond nid yw hyn yr un peth â dweud y bydd yn gwarantu datblygiad. Mae datblygiad a derbyn syniadau newydd yn rhywbeth hirdymor, parhaus sy'n gofyn am ei adnoddau a'i strategaeth ei hun.
Tybiaf fod peth dryswch am amcan y gronfa: i ddatblygu syniadau (o ran yr artist) neu brofi gwaith (o ran y gynulleidfa)."

"Cytunwn fod angen y Gronfa i wneud gwaith yn barod i deithio ac sy'n annog cydweithio a ddylai arwain at brosiectau arloesol ac arbrofol.
Rhydd y gronfa gyfle i gwmniïau gyflwyno gwaith ar gam cynharach yn y broses a chael adborth gan gynulleidfa. Nid yw hyn o reidrwydd yn gatalydd i ddatblygu cynulleidfaoedd. "

"Cytunwn â'r angen am gronfa i alluogi cydweithio a dulliau gweithio newydd ac nad yw bob tro yn diweddu mewn cynhyrchiad teithiol."

"Byddai cronfa o'r fath yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig ar gyfer cynyrchiadau newydd, arloesol yn y Gymraeg. Byddai angen mwy o wybodaeth am sut y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhagweld y partneriaethau yn datblygu."

"Byddai'n ddefnyddiol iawn yn enwedig am waith arloesol yn y Gymraeg. Mae angen rhagor o wybodaeth am ddatblygiad y partneriaethau. "

Soniodd sawl un am y ffyrdd cadarnhaol y gall fod o gymorth i ddatblygu cynulleidfa:

"Mae'n gychwyn bwynt gwych am waith newydd heb beryglon ariannol difrifol a bydd o gymorth i ddatblygu cynulleidfa o weithio wrth ochr sefydliadau cyflwyno."

"Gall y gronfa arwain at greu diwylliant o weld a thrafod gwaith wrth iddo gael ei ddatblygu a dylid ei chefnogi.

Sut gallai hynny fod yn gatalydd i ddatblygu cynulleidfaoedd yn sylweddol? Yn y bôn, gan anwybyddu ffactorau ar raddfeydd gwahanol megis castio, oherwydd y dylai gynnal a datblygu cynulleidfa ar gyfer gwaith da y mae cynhyrchwyr a chyflwynwyr yn gyfarwydd ag ef a hyder ynddo."

"Gall hybu ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd ond o bwysleisio datblygiad, gall arwain at lai o beryglon."

Ein hymateb:
Prif swyddogaeth y cynllun yw rhoi cyfleoedd i ddatblygu syniadau newydd a gwerthfawrogwyd hyn gan bawb ac mae angen i ni fonitro sut y datblyga cynyrchiadau gynulleidfa a datblygu mentrau i fanteisio arnynt .

Cytunwn â'r angen i'r cwmnïau gydweithio â'r lleoliadau ar gydgynlluniau datblygu ac argymhellir hyn yn rhan o'r cais.

Y prif ffocws fydd ar ddatblygu gwaith cyffrous, heriol a pherthnasol i gynulleidfaoedd Cymru er y cynhyrchir gwaith teithiol hefyd. Nid oes raid i'r gwaith deithio. Gellid ychwanegu paragraff:

2.6 Er y rhagwelwn y byddai rhan sylweddol o'r ceisiadau datblygu gwaith yn teithio ledled Cymru, derbyniwn geisiadau hefyd sy'n benodol i safle.

Dechreuwyd gwaith yn barod ar ddatblygu canllawiau ar ystyr cydweithio. Ond natur y cynllun (a ddywedir hyn yn y ddogfennaeth) yw bod y fethodoleg yn agored:

"Chwiliwn am ffyrdd ffres o fynd ati a syniadau newydd a gadawn y peth yn agored i'r ymgeisydd ddisgrifio sut y datblygir y gwaith".
Yn gyffredinol croesawyd y ffordd hon o fynd ati gan yr ymatebwyr.

Cwestiwn 2

A yw'n disgrifiad yn rhy annelwig yn 2.5 am sut y gellir defnyddio arian? A fyddai gwerth mewn gadael y dull yn agored i'w archwilio drwy graffu ar y ceisiadau?

Cafwyd 11 ateb, deg ohonynt yn gadarnhaol. Croeso gofalus a gaiff gan yr olaf sy'n awgrymu peilot i werthuso gwerth y gronfa ac ansawdd y ceisiadau. Ni chyflwynir y gronfa'n beilot ond gwerthusir hi. Ystyrir diwygiadau yn y dyfodol os oes angen yng ngoleuni'r ceisiadau a ddaw i law.

Ymatebion Penodol

"Cytunwn y dylid cadw'r telerau defnyddio'r gronfa mor eang â phosibl. Byddai o ddefnydd nodi pa ganran o'r gronfa a fyddai ar gyfer cydweithio ar draws cyfryngau a faint ar gyfer prosiectau drama traddodiadol."

Hefyd

"Cytunwn y dylid cadw'r telerau defnydd yn eithaf agored. Ond deallwn yr angen i hybu prosiectau ar draws y celfyddydau. Byddai o ddefnydd i wybod i ba raddau yr ystyrir prosiectau ar draws y celfyddydau yn well na rhai drama'n unig."

"Teimlwn fod dryswch rhwng pwyntiau 2.1 a 2.3. Awgryma 2.1 y dylai'r Gronfa alluogi cynyrchiadau teithiol i gael proses ddatblygu ar gam cynnar yn y prosiect a alluogai wedyn gynhyrchwyr 'i deithio gwaith sy'n gyffrous, heriol a pherthnasol i gynulleidfaoedd Cymru'. Awgryma 2.3 mai nod y Gronfa yw annog gweithgarwch sy'n llwyr ddatblygol ac nad canlyniad hwnnw o reidrwydd fyddai 'creu darn o waith'. Mae angen tipyn o oleuni pellach."

Ein hymateb:

Ni orchmynnwn ganrannau i rai mathau ar brosiectau. Mae'r cynllun am ddatblygu prosiectau drama ond rhagwelir y gallai cydweithio â chelfyddydau eraill yn fodd i greu darnau cyffrous. Bu cymeradwyaeth gyffredinol am y rhyddid i ddehongli'r canllawiau a byddai cyflwyno canrannau'n groes i hyn.

Ceisiwn ei gwneud yn glir nad y cam cyntaf yw'r Gronfa o ran prosiectau i'n Cynllun Teithio Cenedlaethol. Wrth gwrs disgwyliwn i nifer o brosiectau a ddatblygir drwy'r gronfa esgor ar gais i Deithio Cenedlaethol. Ond yn gyntaf ni fyddai cael cefnogaeth y Gronfa'n awgrymu llwyddiant pendant wrth ymgeisio wedyn i Deithio Cenedlaethol. Ni ddisgwyliwn ychwaith mai Teithio Cenedlaethol fyddai'r cam amlwg nesaf i bob cais.

Cwestiwn 3

A gytunwch â'n disgrifiad o bwy fyddai'n gymwys i gael arian?

Cafwyd 12 ateb. Roedd pob un yn bleidiol i'n disgrifiad er gofynnai rhai am ei estyn.

Ymatebion penodol

Credai pedwar o'r ymatebwyr y dylid caniatáu grwpiau theatr ieuenctid (a grwpiau ieuenctid) i fod yn gyfranwyr partner. Dadleuwyd bod sawl prosiect wedi'u datblygu gyda grŵp ieuenctid cyn eu troi'n gynyrchiadau proffesiynol llawn.

Manteisiai dau ar y cyfle i ddadlau dros barhau i ariannu theatrau ieuenctid yn gyffredinol gan roi esiamplau o fudd ein harian Loteri i grwpiau felly.

Awgrymai un arall na ddylid cau amaturiaid o'r broses.

"*Yn fras mae eich rhestr yn cynnwys pob artist a sefydliad cymwys. Ond nid yw'n glir a oedd ffordd o ganiatáu i grŵp o artistiaid heb fod mewn partneriaeth lawn weithio gyda chwmni, theatr neu ganolfan y celfyddydau?"*

"Yn fras, heb darfu ar nod y gronfa o hybu gwaith ar y cyd, byddai o fudd i unigolion allu cynnig am lefelau is o grantiau gan lawn ddisgwyl y byddai unrhyw gais am gynhyrchiad dan arweiniad cynhyrchydd neu gyflwynwr. Bydd llawer o'r grantiau a gaiff unigolion yn debyg o fod yn is na'r rhai drwy Gymru Greadigol felly ni welwn reswm dros wrthwynebu ar egwyddor unigolion yn ymgeisio i'r gronfa."

"Cytunwn yn fras â'r meini prawf am gael yr arian ond gydag un eithriad allweddol. Bylchwyd rhengoedd theatr y plant gan yr Adolygiad Buddsoddi yn enwedig yn y Dwyrain. Gellid mynd i'r afael â hyn drwy gynhyrchu gwaith teithiol gan fyfyrwyr neu grwpiau ieuenctid sydd o safon."

"Hoffem ragor o eglurhad am 3.3 o ran cwmnïau a ariennir yn barod i ddatblygu gwaith newydd ac am ddiffiniad cliriach o'r term 'gwaith newydd'. Teimlwn y byddai rhai esiamplau o gydweithio â chwmnïau a ariennir yn barod i ddatblygu gwaith yn anhepgor o ran rhannu ymarfer da a syniadau."

"Yn fras cytunwn ond hoffem ragor o eglurdeb ar gymhwysedd Sefydliadau Refeniw. Os nad yw'r syniadau newydd yn gydnaws â gwaith craidd y sefydliad refeniw, a all unrhyw sefydliad refeniw gael arian o'r gronfa hon am gynyrchiadau newydd ac arloesol? Gobeithiwn mai fel hyn y bydd am y galluoga arbrofi gyda phartneriaid newydd ac ar gyfer cynulleidfaoedd newydd ."

Ein hymateb:
Nod y gronfa yw datblygu ymarfer proffesiynol a gwella ansawdd ac ystod theatr Cymru. Ni leihawn bosibiliadau i theatr ieuenctid neu amatur gynnig i'r gronfa ond croesawn geisiadau cryfion a meddylgar. Mae sawl pwynt da yn yr ymatebion gan nodi manteision gweithio gydag ieuenctid. Nid oes rhwystr i'r fath ymarfer fod yn rhan ddatblygol o gais. Wedyn partner fydd y grŵp ieuenctid ac nid yr ymgeisydd. Gallai'r grwpiau ieuenctid gymryd y syniadau yn y ddogfen a llunio cais ar eu cownt i ni drwy feysydd ymgyfranogol y Loteri.

Lluniwyd y gronfa gan adael rhyddid mawr i'w dehongli ond yn y bôn datblygu syniadau cynhyrchu sydd wrth ei gwraidd. Gallai'r syniadau fod ar gam cynnar iawn ond hoffem i ymgeiswyr defnyddio'r cam arbrofol hwn i ystyried sut i lwyfannu a hybu eu cynhyrchiad. A'r cyfan mewn cyd-destun o ystyried y gynulleidfa bosibl. Mae'n gyfle i artistiaid heb y cysylltiadau, y profiad neu'r wybodaeth i ffurfio partneriaethau i'w helpu.

Cefnogwn yn gryf theatrau ieuenctid gan roi cyfleoedd iddynt. Ond nid yw'n fwriad gennym i roi gweithgarwch amatur neu led broffesiynol yn lle darpariaeth broffesiynol yn unman yng Nghymru.

Wrth drafod â sefydliadau refeniw, byddem yn gwneud y pwynt hwn yn glir ac yng ngeiriad arian posibl y Loteri yn eu cytundebau refeniw. Ond o ran gramadeg, mae 3.3 yn anghywir. Awgrymir y diwygiad canlynol-

Gwaith datblygu gan gwmnïau sy'n cael arian refeniw - rhan o'u cylch gwaith yw datblygu gwaith newydd. (Ond gellid eithrio cwmni os gallai brofi'r angen am ddatblygu cydweithio sy'n hynod gyffrous).

Cwestiwn 4

Ai'r rhain yw'r meini prawf cywir i ni eu defnyddio wrth asesu ceisiadau?
Cafwyd deg ateb. Cymeradwyodd pob un ein meini prawf gan gynnig cyngor ar ganllawiau defnyddiol a chan ofyn am bwyntiau penodol y gellid eu cynnwys yn y canllawiau.

Ymateb penodol
"Cyfyngus yw ansawdd y cydweithwyr creadigol. Daw gwaith cyffrous yn aml oddi wrth artistiaid cyffrous heb hanes profedig ond gallant sbarduno syniad er gwaethaf y diffyg hwnnw. Nid oes angen hyn, dylid barnu'r cais ar ei botensial ac nid ar y bobl o reidrwydd."

Ein hymateb:
Credwn o hyd yn y meini prawf hyn. Ni ofynnwn am ryw leiafswm mewn blynyddoedd o brofiad neu hanes profedig gan ymgeiswyr neu gydweithwyr. . Ond byddai hyd yn oed gan y rhai mwyaf newydd hanes o waith o'r coleg ayb. Croesawem geisiadau gan artistiaid newydd gan ddehongli'r meini prawf yn nhermau eu diffyg profiad.

"Mae penawdau'r meini prawf yn iawn. Ond gyda'r geiriad presennol nid oes digon o syniad o beth fyddai lefel dderbyniol o ddatblygu cynulleidfa neu ddawn cydweithiwr ac felly mae'n anodd asesu"

Ein hymateb:
Petai'r materion hyn yn rhai y gellid eu marcio allan o ddeg yn erbyn meini manwl, cawn geisiadau sy'n ennill marciau'n unig heb y nwyd dros y syniad. Defnyddia'n panel penderfynu'r meini prawf cyhoeddedig a gall ddangos sut bydd y rhai llwyddiannus agosaf at y meini hyn.

"Cytunwn yn llwyr y dylid talu'n briodol i artistiaid ond nid oes llawer o raddfeydd tâl yn y diwydiant ar gyfer gwaith datblygu. Dylai'r Cyngor ddarparu arweiniad ar hyn."

Ein hymateb:
Ymgorfforwn arweiniad yn ein Nodyn Cyfarwyddyd i'r gronfa.

Cwestiwn 5

A oes unrhyw beth ar goll?

Cafwyd 8 ateb. Dywedodd pedwar nad oedd dim ar goll. Cynigiodd dau awgrymiadau. Gofynnodd dau a allai cais i'r gronfa hon fod yn ychwanegol at gais y Loteri arall ymhob blwyddyn.

"Dylai fod cam cynharach lle byddai grantiau llai ar gael (hyd at £1,000) i ddatblygu syniad sylfaenol iawn. Gall gwneud rhywbeth byrfyfyr arwain at ganfyddiadau cyffrous iawn y gellid eu datblygu â chais datblygu mwy strwythuredig; ond bydd hyd yn oed chwiw'r funud yn costio, ac i rai cwmnïau bydd y gost yn ddigon i dagu'r syniad yn y crud."

Ein hymateb:
Ni fyddai hyn yn cau allan ceisiadau ar sail debyg gan unigolion i'n rowndiau ymgeisio presennol. Mae awgrym y byddai o ddefnydd i'w cadw ar y llwybr araf ac ailystyried yr ymarfer gwerthuso sydd i'w gynnal wedi dwy flynedd gyntaf y cynllun.

"Dylai'r meini prawf gynnwys hefyd asesiad o hyfywedd y prosiect o safbwynt yr hyrwyddwr - ffioedd, cytundebau, maint tebygol y gynulleidfa. Amlinelliad hefyd o sut a lle y cyflwynir y prosiect - math o le, mwyafswm cynulleidfa, patrwm y daith, penodol i safle.
Yn fy marn i, dylai ymgeiswyr arddangos eu bod yn ymwybodol o ymarfer da wrth ymgeisio gan ddefnyddio'r cam datblygu am ymchwil neu ddatblygiad."

Ein hymateb:
Ystyrir cynnwys hyn yn y cyfarwyddyd.

"*Hoffem wybod a fyddai ymgeiswyr llwyddiannus yn gymwys i ymgeisio gyda phrosiectau eraill neu fod yn rhan o bartneriaethau eraill yn ystod yr un flwyddyn.*"

Hefyd

"*Hoffem wybod a ataliai cais i'r Gronfa wneud cais arall am brosiect gwahanol yn yr un flwyddyn ariannol: anogwn y Cyngor i wneud y gronfa hon yn gymwys dros bopeth arall o geisiadau eraill megis gyda'r gronfa Hyfforddi*

Ein hymateb:
Ni fydd ceisiadau i'r gronfa fod yn ddarostyngedig i'r rheol un cais mewn blwyddyn.

Cwestiwn 6

Bydd ein cronfa'n faes yn ein rhaglen Loteri a dilyna'n fras ganllawiau'r Loteri. A oes unrhyw beth yn ein canllawiau yr hoffech ei adolygu neu ei newid?

Cafwyd 8 ateb. Nid oedd gan dri unrhyw beth i ni ei ystyried. Gofynnodd un am ragor o fanylion am sut gweithia maes yn rhaglen y Loteri. Rhestrir y pedwar ymholiad arall isod.

Ymatebion Penodol

"I mi mae'n rhyfedd bod costau marchnata'n gymwys ond nid costau gwefan. Ymddengys yn deg i gynnwys y wefan gyda'r marchnata. Yn yr oes fodern rhaid rhoi pob cyfle i ddatblygiadau gwe."

Hefyd

"Mae'r llythyrau cefnogi'n cymryd amser hir i bawb ac ni welwn eu gwerth. Yn fras gweithia'r cynllun presennol yn dda ond cawn fod cyngor a chymorth swyddogion y Cyngor o fudd (gan gynnwys Swyddog Datblygu'r Celfyddydau ym Mhowys). Yn aml, cwestiwn amhosibl yw'r un am fudd a galw'r cyhoedd am waith arloesol. Dylid diwygio'r adran hon o'r broses ymgeisio."

Ein hymateb:
Ystyrir yr awgrymiadau hyn gan grŵp y swyddogion sy'n diwygio canllawiau cynllun y Loteri.

Ymatebion Penodol

"Hoffai Theatrau Rhondda Cynon Taf i'r Cyngor alluogi ceisiadau i'r cynllun hwn fod dros bopeth arall ac yn ychwanegol at yr hen reol o 1 cais y flwyddyn i unrhyw gynllun gan y Cyngor. Byddai'n ddefnyddiol i ni ac eraill na chafodd y cyfle ariannol i ffynnu ond goroesi'n unig."

Hefyd

"Dylai ceisiadau llwyddiannus i'r Gronfa fod y tu allan i'r rheol arferol o un grant prosiect byw."

Ein hymateb:
Ni fydd ceisiadau i'r gronfa fod yn ddarostyngedig i'r rheol un cais mewn blwyddyn.

7. Cwestiwn 7

Oes gennych sylwadau ar asesu a phenderfynu?

Cafwyd 7 ateb.

"Anogaf y Cyngor i ystyried lleisiau cyflwynwyr a swyddogion datblygu cynulleidfaoedd wrth asesu; ond ni chredaf mai llythyrau cefnogi yn ffordd o wneud hyn. Dylech

ddewis pa ymgynghorwyr cenedlaethol sy'n asesu ar sail eu dealltwriaeth o'r gelfyddyd a datblygiad cynulleidfa."

"Mae'n bwysig trafod y prosiect gyda'r cydweithwyr wrth ei asesu ac nid yr ymgeisydd yn unig."

"Hoffem wybod amserlen prosesu ceisiadau a dylai'r dyddiadau cau gyd-fynd â rhai'r Gronfa Teithio Cenedlaethol."

"Hoffem wybod beth yw'r cyfnod rhwng cyflwyno'r cais a phenderfyniad.
Dylai dyddiad cau'r Gronfa Datblygu Cynhyrchu Theatr gyd-fynd ag un Teithio Cenedlaethol - rhoddai blwyddyn lawn ddigon o amser i brosiect cyn gwneud cais i Gronfa Teithio ymhen blwyddyn.
Hoffem wybod rhagor o fanylion am swyddogaeth yr Ymgynghorwyr Cenedlaethol o ran eu dewis a'u rhan yn y panel ariannu. Byddai rhagor o gynrychiolaeth o'r tu allan i Gymru yn gymorth."

"A fydd y meini prawf ar gyfer yr asesiad ar gael i'r ymgeiswyr hefyd?
A fydd y meini prawf ar gael i'r ymgeiswyr hefyd?"

"Dylai'r broses gynnwys:
Rownd ddewis gyntaf gan swyddogion y Cyngor i dynnu rhestr fer
Cyflwyniadau gan ymgeiswyr y rhestr fer gerbron panel gyda nifer cyfartal o swyddogion y Cyngor ac ymarferwyr theatr sydd â phrofiad helaeth o ddatblygu.
Awgrymwyd dyddiad cau yn y gwanwyn i'r Gronfa. Yn ein barn ni, gwell byddai un yn yr hydref megis Teithio Cenedlaethol. Caiff ceisiadau llwyddiannus naw neu ddeg mis o gyfle (Rhagfyr-Medi) i'w datblygu ac o bosibl gyflwyno cais y flwyddyn wedyn.
Byddai rownd gwanwyn yn ychwanegu blwyddyn bellach i'r broses a gadael rhy ychydig o amser rhwng ei gyhoeddi ym Mai/Mehefin, ei ddatblygu a dyddiad cau Teithio ym Medi."

"Oherwydd creadigrwydd ac arloesedd y grant, awgrymwn y dylai'r panel gopïo un Cymru Greadigol ac y dylai cyd-aseswyr fod yn y broses hefyd."

Ein hymateb:
Yn yr hydref bydd y dyddiad cau i gyd-fynd â'r Gronfa Teithio. Ystyrir y sylwadau hyn wrth lunio'r weithdrefn asesu a'r nodyn cyfarwyddyd i ymgeiswyr.

8. Sylwadau eraill

Cafwyd hefyd llawer o feddyliau cadarnhaol ar ddiwygiadau ac ymholiadau am ddiffiniadau. Mae'n werth eu didoli. Codwyd cwestiynau ehangach hefyd.

"1.3: Croesawaf gydnabod ystod y sefydliadau cynhyrchu. Ond mae'r frawddeg olaf yn annelwig. Credaf y dywed fod dwy flaenoriaeth: (i) cydweithio newydd a heriol, (ii) cynhyrchwyr na chânt arian refeniw. Ond gallai fod un yn unig!"

Ein hymateb:
Newid y frawddeg olaf yn 1.3 fel a ganlyn:
Prif flaenoriaethau'r gronfa newydd hon fydd -
a) Cefnogi cydweithio newydd a heriol
b) Datblygu creadigol gan gwmnïau cynhyrchu na chânt arian refeniw.

"1.4: Dylid ystyried y cydbwysedd rhwng y ddwy swyddogaeth - i sbarduno ymchwil a cham cyntaf tuag at daith. Neu bydd pawb a gaiff grant yn cymryd yn ganiataol y cânt grant Teithio. Ar y llaw arall awgryma'r gair 'cyfochrog' nad oes cydgyffwrdd o gwbl!"

Ein hymateb:
Cytunwn y dylai'r gronfa fod yn hyblyg ac ymateb i wahanol gamau datblygu. Mae angen defnyddio'r gair 'cyfochrog' yn ofalus. Yn yr holl ymatebion mae cefnogaeth gref dros adael y posibiliadau mor benagored â phosibl. Bydd arnom angen monitro'n ofalus yr ymateb i'r gronfa yn y ddwy flynedd gyntaf ac wedyn meddwl a oes angen rhagor o fanylion yn y canllawiau.

"2.2 - 2.4: Mae gofynion yma'n glir a chroesawaf hwy yn enwedig o gofio'r gynulleidfa a'r partneriaid."

Ein hymateb:
Dyma bwyntiau y gellid eu pwysleisio yn y canllawiau.

"4.1: Yn fy marn i, nid yw 'theatredd dilafar' yn enghraifft addas o waith theatr. Byddwn naill ai'n hepgor yr esiampl neu gynnwys rhestr lawn."

Ein hymateb:
Mae yma ddiffyg eglurdeb. Bwrdwn paragraff 4.1. oedd iaith a'n bod yn hapus i gael ceisiadau a ddefnyddiai'r Gymraeg neu'r Saesneg neu os defnyddid y ddwy, defnyddid hwy mewn modd difyr ac nid ffordd glogyrnaidd a'n bod am i'r dewis a'n defnydd ieithyddol yn ddiddorol ac yn olaf bod modd creu gwaith diiaith. Hefyd nod y gronfa yw archwilio ystod lawn o ffurfiau a thechnegau theatraidd ac o bosibl mae eisiau dweud hyn rywle arall yn y canllawiau.

"Croesewir yn gyffredinol y fenter ddefnyddiol hon i gynyddu ac amrywio drama Cymru.
Cyfyd cwestiwn mawr o baragraff 1.2 sef pam, o ystyried buddsoddiadau Clwyd Theatr Cymru, Sherman Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru a National Theatre Wales (nid yw Theatr y Torch ar y rhestr hon), rydym yn methu o hyd â darparu 'portffolio sefydlog o waith o safon gyson'?"
Â ymlaen i ddweud y cwyna lleoliadau am ddiffyg gwaith teithiol o safon o ystyried y galw, ac ymdrecha'r gwaith a gynhyrchir i lenwi wythnos hollt. Eto, pam?
Mae cynhyrchu drama yn broses gymhleth ac anodd sy'n anos yn yr hinsawdd bresennol. Mae llawer o feini prawf yma o ran cynnyrch:

- *gwaith heriol, arloesol, cyffrous a pherthnasol*
- *gwaith o safon*
- *gwaith a atynna gynulleidfa*

Ychwanegwn:

- *Gwaith a grëwyd gyda digon o amser paratoi (a oes canllawiau proffesiynol?) i gydymffurfio â rhaglenni'r lleoliadau - gofyniad sylfaenol ond un a fethir yn aml.*
- *Gwaith nad yw'n ddibynnol ar yr hyrwyddwr/lleoliad yn ariannu'r cwmni; gwaith y gellir teimlo'n hyderus y tâl cynulleidfa i'w weld i warantu'r hyn y gofyn yr hyrwyddwr amdano neu drefniant hollt i leddfu ar y perygl.*
- *Gwaith a gynigir gyda rhywfaint o gydweithio a fu rhwng cynhyrchwyr o ran a yw'n amseriad da drwy'r flwyddyn ac osgoi tair neu bedair taith gydamserol.*

Rhaid i ni sicrhau'r gofyniad sylfaenol y diwellir ymarfer da. Mae'n wastraff o arian y cyhoedd i ariannu gwaith na chynhyrchwyd yn iawn. Sut yr eglurwn gyfrifoldebau'r pedwar (pum) cwmni uchod a sicrhau diwallu'r cyfrifoldebau hynny? Sut y sicrhawn y diwellir pob mesur ymarfer da gan gynhyrchwyr? Sut y cydlynwn waith sawl cwmni sy'n gweithio ar wahanol raddfeydd? Sut y sicrhawn fod digon o gynnyrch o safon ar bob graddfa? Sut y sicrhawn ffordd effeithiol, strategol o gynhyrchu drama sy'n datblygu'r gelfyddyd, y cynnwys a'r cynulleidfaoedd?

Rwyf o'r farn bod y cynigion hyn am y Gronfa yn rhan o'r cwestiynau mwy hyn. Er bod croeso i'r syniadau, rhaid i ddatblygiad drama neu gynyrchiadau theatr a ddisgrifir yn y ddogfen fod yn rhan o ffordd fwy cynhwysfawr i gynhyrchu drama nad yw'n bodoli eto i bob pwrpas. Mae'r ffordd arbrofi a chael gwybod ym mharagraff 2.2 yn fodd arall o bosibl o gydnabod diffyg strategaeth sy'n gweithio; nid yw pwysau llwyddo o reidrwydd yn beth drwg a gall godi safon. Ond yr allwedd i lwyddiant drama Cymru yw symud i ffwrdd o'r ffordd anghysylltiedig o fynd ati tuag at ffordd gydlynus."

Ein hymateb:
Amlygir sefyllfa yma sydd y tu hwnt i'r ymgynghoriad hwn ond cynnwys bryderon sy'n bwysig i gynhyrchwyr, cyflwynwyr a'r Cyngor. Crybwyllwyd pwynt arall ond heb helaethu arno, sef cyrraedd y sefyllfa lle gall lleoliadau groesawu cynyrchiadau am wythnos lawn ac atynnu cynulleidfaoedd am wythnos o hyd. Rydym yn ymroddedig i barhau'r drafodaeth hon i wireddu hyn gan fynd i'r afael â'r holl faterion a godir yn yr ymateb hwn.

"Cytunwn â syniadau'r ymgynghoriad ar sail yr Adolygiad Buddsoddi sef:

- *Golyga'r hollt rhwng y cwmnïau cenedlaethol megis Theatr Genedlaethol, National Theatre Wales, Clwyd Theatr Cymru a Sherman Cymru fod prinder arian i gwmnïau a gynhyrcha waith arloesol a heriol mewn lleoliadau llai.*
- *Gall pwysau ariannol olygu bod lleoliadau'n ffafrio opsiynau diogel a chyfarwydd yn hytrach nag arbrofol. Yn ei dro cynhyrcha'r cwmnïau eu hunain waith diegni a diuchelgais ond sy'n debycach o ennill lle mewn rhaglen theatr.*
- *Caiff Mappa Mundi hyd yn oed drafferth i ddod o hyd i le yn rhaglenni rhai theatrau am y chwiliant am sioeau rhatach a ddaw â rhagor o elw.*
- *Ar yr un pryd pery gwaith arloesol National Theatre Wales fod cynulleidfaoedd yn ailfeddwl theatr Cymru. Mae bwlch enfawr rhwng gwaith National Theatre Wales a gwaith y grwpiau llai. Yr her yw dal yr egni i ddatblygu theatr newydd gyda syniadau newydd.*

Ni allwn fforddio arbrofi (fel yr argymhella 2.2.) ac ychydig o gwmnïau sydd â'r gyllideb i gynhyrchu gwaith ar y sail honno. Yr hyn y gallwn ei wneud wrth gydweithio â chwmnïau cynhyrchu yw rhannu adnoddau marchnata, technegol ac ymarfer yn ogystal â chyfarwyddwyr a byddai lleoliadau ynghlwm wrth bob cam yn y broses greu. Lle digwydd hyn, yn bennaf drwy arian Celfyddydau'r Tu Allan i Gaerdydd, gellir magu gwir bartneriaethau a datrys y problemau marchnata gwaith newydd yn gynnar yn y broses. Esiamplau da sydd rhwng y canlynol: Mappa Mundi, Theatr Mwldan, Opera'r Canolbarth a Theatr Hafren."

Ein hymateb:
Pwysleisir yma bwysigrwydd cydweithio i'r prosiectau hyn a'r angen am feddwl clir am y gynulleidfa darged a'r dulliau i'w defnyddio. Ond rhaid wynebu'r posibiliad na fydd refeniw'r theatrau llai byth yn cwrdd â chost rhaglenni mwy beiddgar. Dylem ystyried dros y flwyddyn nesaf sut y gellid cynnwys yr arian am hyn yn y cymorthdaliadau a roddwn i rwydwaith craidd y lleoliadau.

"Mae'r cynigion yn dda a'r meini prawf yn glir. Mae angen clir am y fath gronfa. Rwy'n cyfarfod â sawl gwneuthurwr theatr sy'n rhwystredig gyda'r diffyg cyfleoedd creu. Tybed a ddylai mentora fod yn rhan o'r prosiect? Ac efallai rhyw fath o gyflwyniad/cyfweliad yn hytrach na chais ysgrifenedig?
Byddai'n dda cynnwys pobl broffesiynol yn y broses ddethol hefyd."

Ein hymateb:
Ein nod yn bendant oedd cynnwys y posibiliad o fentor yn y cynllun datblygu. Gellid pwysleisio neu gryfhau'r elfen hon yn y canllawiau.
Trafodwyd cyflwyniad yn rhan o'r broses pan ysgrifennwyd y ddogfen.
Cytunwyd y gallai fod yn ffordd ddefnyddiol o weithio ond penderfynwyd peidio oherwydd y gost.
Dywed ein gweithdrefnau y dylai arbenigedd yn ein paneli fod ar ffurf ymgynghorwyr cenedlaethol. Mae pobl theatr broffesiynol ymhlith ein hymgynghorwyr cenedlaethol. Mae arnom angen parhau i recriwtio paneli gan gadw hyn mewn cof.

"Mae angen eglurdeb yn 3.3 am ba sefydliadau sy'n meddu ar gylch gwaith i ddatblygu gwaith newydd. Onid pob cwmni refeniw sy'n gwneud hyn? A oes Canolfannau Celfyddydau Perfformio Rhanbarthol y mae disgwyl arnynt fod yn gyfrifol yn y maes hwn hefyd yn sgil, er enghraifft, arian blaenorol Cwmnïau Disglair a gawsant - arian a atgyfnerthwyd i bob pwrpas drwy'r Adolygiad Buddsoddi?
Deallwn fod angen atal sefydliadau cynhyrchu refeniw rhag sugno i fyny'r gronfa, ond onid oes ffordd glyfar o ddod â'r sefydliadau i berthynas gynhyrchiol â'r gronfa, yn enwedig y rhai ohonom sydd ag adnoddau a allai helpu'r datblygiad?"

Ein hymateb:
Mae angen sicrhau bod disgrifiadau cytundeb refeniw yn ddigon clir o ran pa weithgarwch creu a ariennir yn barod a pha waith sy'n ychwanegol ac felly'n

sail i gais arall. Rhaid cael cydbwysedd hefyd yn y defnydd o'r arian i fwyafu potensial y cleientiaid refeniw i gydweithio ar brosiectau a sicrhau y gall talent newydd gael mynediad i'r gronfa yn ogystal.

"2.2 Hoffem gael eglurhad am y diffiniad o 'leoliad' yng nghyd-destun y grant hwn, o gofio'r datblygiad cynulleidfa ynghlwm wrth y gronfa a'r ffaith y disgwylir i'r cynnyrch (os oes) ddatblygu cais pellach i Deithio Cenedlaethol?
A anogir lleoliadau drwy'r gronfa i ymgymryd â pheryglon am fod yn rhaid i'r rhan fwyaf gael arian sy'n haws os yw'r cynnyrch wrth fodd y gynulleidfa ac mae gan leoliadau gwahanol ddisgwyliadau gwahanol?

Ein hymateb:
Nid oes un diffiniad o leoliad a hynny o fwriad. Ond yn sicr mae ar gynhyrchiad angen lleoliad - ond gall fod yn theatr draddodiadol neu ganolfan y celfyddydau, lle safle-benodol, stryd ac ati. Ond gofynnir i chi wrth ddatblygu syniad dreulio amser a defnyddio adnoddau wrth adnabod pa leoliadau a fyddai'n addas a pha gynulleidfaoedd. Hoffwn weld tystiolaeth o geisio partneriaethau gyda threfnwyr y lleoliadau addas a bod ystyried y gynulleidfa'n rhan o'r prosiect.
Mae'n glir o'r rhestr dan 3.1 y gall lleoliadau ymgeisio i'r gronfa.

"2.3 Hoffwn y ffaith y bydd y gronfa yn helpu creu prawf bod gan y cynhyrchiad y gallu i ddatblygu ac yn werth buddsoddiad - o bosibl drwy Deithio Cenedlaethol. Ond fe'n dryswyd wedyn gan y datganiad "heb y pwysau i greu cynnyrch gorffenedig". Cymeradwywn "yr hawl diymwad i fethu heb unrhyw feirniadaeth" a alluogai cymryd peryglon ond mae'n swnio fel nad oes disgwyl i greu unrhyw beth. A fydd datblygu'r 'cynhyrchiad arloesol' ac ymchwilio iddo'n ddigon i ddiwallu'r meini prawf? Os yw hyn yn wir, ni allwn ddeall pwrpas y gronfa ond dywed 2.4 "Drwy'r cyfleoedd arddangos hyn caiff rheolwyr lleoliadau weld gwaith sy'n mynd rhagddo". Ond sut byddai osgoi tarfu ar y broses greadigol gan anghenion y lleoliadau? A yw'n golygu y gellir defnyddio'r gronfa i sefydlu partneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol? A ellir defnyddio'r grant i dalu am ddeunyddiau hybu/cefnogaeth?
Ymddengys fod cysylltiad rhwng y ddwy gronfa Cynhyrchu Theatr a Theithio Cenedlaethol. A oes llwybr carlam rhwng y ddwy?
Os llwydda cais i'r gronfa Gynhyrchu, a oes llwybr carlam i'r Teithio? Gall fod yn anodd cynnal y prosiect os oes angen aros am fisoedd."

Ein hymateb:
Awgryma hyn fod angen rhagor o esboniad yn y canllawiau. Yr allwedd yw bod gan ymgeiswyr syniad arwyddocaol a all weithio'n gynhyrchiad llawn. Nid bwriad y gronfa yw arbrofi'n unig. Ond nid yw'n ffordd ychwaith i ariannu cynhyrchiad bach sef y rheswm y dywedwn nad oes pwysau i greu cynnyrch gorffenedig. Efallai fod arnom angen dweud yn glir na ddylai gael cynnyrch gorffenedig o gwbl. Ym mhob achos mae eisiau ystyried yr hyn a fyddai gwaith datblygu addas a byddai dangos gwaith sy'n mynd rhagddo yn rhan werthfawr o'r broses.

O ran cefnogaeth/deunyddiau hybu (yn enwedig gyda chynyrchiadau mawrion a all deithio i leoliadau rhif un) gall arwain at werthu'r syniad i'r lleoliadau'n fasnachol. Ond nid ariennir o'r gronfa gynnyrch i deithio na deunyddiau hybu i'w hyrwyddo. Dyna'r cam nesaf yn y broses.

Nid ystyriwn geisiadau nad oes ganddynt y gobaith o allu esgor ar gynhyrchiad yn y pen draw. Er ein bod yn awyddus i gefnogi syniadau newydd ac arloesol drwy'r gronfa, rhaid derbyn y metha rhai syniadau addawol wedi craffu'n hwy arnynt yn ystod y broses. Ni ddisgwyliwn i'r fath syniadau oroesi'r cam datblygu hwn.

Hefyd ni olyga cefnogaeth yn y cam hwn gefnogaeth awtomatig ar lefel Teithio Cenedlaethol. Erys honno'n rownd gystadleuol ac er bod llwybr carlam yn syniad da, nid yw'n ymarferol. Ond bydd ymgeiswyr yn ymwybodol o'r amserlen a rhagwelwn yr ymgeisia nifer mawr i Deithio Cenedlaethol yn y flwyddyn wedyn. Cynghorir ymgeiswyr i gofio'r amserlen hon wrth gynllunio.

"Hoffwn wneud pwynt am 2.3: "datblygu cynigion newydd, cyffrous".
Rwy'n ddawnsiwr annibynnol ac ar hyn o bryd un cais yn unig y gallaf ei wneud i chi bob blwyddyn. Byddai hwn o reidrwydd ym maes dawns. Ond hoffwn gydweithio hefyd ar asio testun a chorff. Cydweithiaf ag awdur o National Theatre, Llundain, a mynegodd Sarah Argent ddiddordeb mewn cydweithio hefyd. Ond mae'n anodd i mi fuddsoddi yn y prosiectau hyn oherwydd y canllawiau ariannu presennol. Awgrymaf i chi ailystyried y canllawiau i ganiatáu rhagor nag un cais y flwyddyn os datblygir gwaith mewn celfyddyd arall. Gallai artistiaid groesi rhwng celfyddydau i greu diwylliant mwy hyblyg a datblygu eu meysydd."

Ein hymateb:
Ni ddeallai'r ymgeisydd na all artistiaid unigol ymgeisio i'r gronfa. Croesawn geisiadau sy'n cynrychioli cydweithio rhwng artistiaid a lleoliadau neu gwmni cynhyrchu, ond y cwmni fydd yr ymgeisydd. Mae'n cydnabod na fydd gan yr unigolyn yr adnoddau i gynllunio a chreu cynhyrchiad a mynd ag ef ar daith. Nid amhosibl yw i unigolyn feddu ar y sgiliau angenrheidiol ond byddai arno angen sefydlu cwmni cynhyrchu i'w wneud a fyddai wedyn yn gymwys i ymgeisio.

"Cyflwynais sylwadau cadarnhaol i'r cynigion hyn yng nghyfarfod y rhanbarth ond hoffwn gynnig yr ymateb personol hefyd:

1. Cefnogaf i'r carn fwriad a nod y cynllun i gefnogi a datblygu gwaith theatr gan gynhyrchwyr annibynnol i fynd i'r afael â'r strwythur sy'n bendrwm.

Nid i ddatblygu amrywiaeth o leisiau'n unig ond hefyd i gael cydweithwyr i Theatr Genedlaethol a National Theatre Wales.

Mae'r ansawdd amrywiol yn anos mynd i'r afael ag ef. Credaf fod rhai o'r cynigion o ddefnydd, ond erys cynnyrch unrhyw gwmni yn 'amrywiol'.

Ond teimlaf fod y cynigion, drwy dynnu lleoliadau i'r broses ddatblygu, yn lleihau gallu'r cwmnïau i ymbellhau oddi wrth unrhyw ddiffygion yn eu gwaith.

Un o'r canlyniadau o sefydlu National Theatre of Wales, a gweld honno'n gwerthu pob tocyn i'w sioeau, yw profi bod cynulleidfa yno i'r theatr ledled Cymru. Credaf fod hyn i raddau oherwydd teimlad ar ran y cyhoedd bod cynllunio, ymroddiad a chydweithio rhwng pob rhanddeiliad a adlewyrchir yn y cynigion hyn.

Credaf felly bod gwir bosibiliad am ddatblygu cynulleidfa sylweddol a chreu gwaith cynhenid i gynulleidfaoedd ein theatrau cenedlaethol ar ôl iddynt symud ymlaen

Pwynt 3 - cynghoraf ofal yma - nid wyf am weld sefyllfa lle mae ymgeisydd cymwys (sy'n lleoliad yng Nghymru) yn ariannu datblygiad gwaith gan bartner o'r tu draw i'r ffin na lwydda gael ei gynhyrchu yma. Mae perygl i'r 'budd profadwy' gael ei deall yn y termau 'mae ganddynt rywbeth i'w ddysgu gennym ni'.

O.N. nid yw 3.3 yn gywir yn ramadegol

A fydd cyflwynwyr/cynhyrchwyr Caerdydd yn gymwys? Yr unig reswm y gofynnaf yw'r sôn am Gelfyddydau'r Tu Allan i Gaerdydd a'r gofyniad yn y cynllun teithio i leoliadau Caerdydd gael un arall yn y De ond y tu allan i'r brifddinas.

A fyddai cap ar nifer y grantiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw sefydliad neu unigolyn? Gyda cheisiadau unigolion drwy bartneriaeth â sefydliad, bu rhai'n well yn hanesyddol yn y ffordd honno o weithio. Nod amlwg y cynllun yw dosbarthu arian dros Gymru gyfan ond gyda nifer cyfyngedig o bartneriaid posibl, bydd rhai sefydliadau'n debyg o atynnu sawl ymgeisydd."

Ein hymateb:
Mae arnom angen nodi'r pwynt am sicrhau budd profadwy i artistiaid a chynulleidfaoedd Cymru.
Mae angen diwygio'r fersiwn Saesneg yn 3.3 (Un eithriad posibl i hyn yw pan all y fath gwmnïau arddangos yr angen i ddatblygu gwaith ar y cyd sy'n eithriadol o gyffrous).
Bydd cyflwynwyr a chynhyrchwyr Caerdydd yn gymwys.
Mae arnom angen hyblygrwydd o ran nifer y ceisiadau y gall sefydliad eu gwneud.
Mae angen hefyd sicrhau bod gan y sefydliad y cymhwysedd i gydweithio'n llawn ymhob cais yn hytrach na gweithredu megis pibell ar gyfer llawer o artistiaid i geisio arian.

YMATEBWYR I'R YMGYNGHORIAD:

Cyfarwyddwr, Ysgol Theatr Maldwyn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Theatr y Torch
Nicolas Young, Glan yr Afon
Cyngor Dinas Casnewydd
Theatr Mwldan
Theatr i Bobl Ifainc, Clwyd Theatr Cymru
Circuit
John Rowley
Sherman Cymru
Jem Treays, Coleg Cerdd a Drama Cymru
Richard Huw Morgan
Rhondda Cynon Taf
Theatr Bara Caws
Theatr y Fwrdeistref
Theatr Iolo
Creu Cymru
Patricia Aithie